



CYNGOR IECHYD CYMUNED  
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

CIC GOGLEDD CYMRU | NORTH WALES CHC

**Cyngor Iechyd Cymuned  
Gogledd Cymru**

**Cynllun Cyhoeddi**

**Mai 2020**

## **Pwrpas**

Canllaw cyflawn yw'r Cynllun Cyhoeddi hwn i'r wybodaeth a gyhoeddir yn arferol gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC). Mae'n dangos sut mae'r wybodaeth yma'n cael ei chyhoeddi ac os oes unrhyw ffi yn daladwy. Byddwn yn adolygu'r Cynllun Cyhoeddi yn rheolaidd gan fonitro sut caiff ei weithredu.

Disgrifiad o'r rhestr o wybodaeth a ddarparwn sydd ar gael yw'r Cynllun Cyhoeddi. Byddwn yn ei adolygu'n rheolaidd gan fonitro ei weithrediad.

## **CYFLWYNIAD**

Mae saith Cyngor Iechyd Cymuned (CICau) yng Nghymru. Corff gwarchod annibynnol y Gwasanaethau Iechyd Gwladol yng Nghymru yw'r CICau. Rydym yn ceisio annog a galluogi aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar ddarparu eu gofal iechyd hwy a gofal iechyd eu teuluoedd a'u cymunedau. Gweithiwn gyda GIG a'r cyrff rheoleiddio i ddarparu cyswllt hanfodol rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn cyflawni'r GIG yng Nghymru, y rhai sy'n rheoli'r gwasanaeth a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae'n ofynnol fod gan pob CIC Bwyllgorau Lleol, ac mae eu terfynau yn cyfateb i ffiniau'r Awdurdodau Lleol.

Gweithreda'r CICau fel cyrff gwarchod i'r GIG yng Nghymru. Eu prif rôl yw:

- Monitro effeithiolrwydd cynllunio GIG;
- Gwerthuso ansawdd gwasanaethau a ddarperir;
- Sicrhau bod barn cleifion ac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli yn deg mewn unrhyw broses o wneud penderfyniadau pwysig; a
- Cynorthwyo a chefnogi cleifion a'r cyhoedd gyda unrhyw gwynion yn erbyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

## Eich hawl i gael mynediad i wybodaeth

Seiliwyd y cynllun cyhoeddi yma ar y cynllun cyhoeddi enghreifftiol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan y comisiwn gwybodaeth.

Mae gan y CICau bolisiau rheoli gwybodaeth yn eu lle i gadw cofnodion a'u gwaredu. Caiff y wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer buses CICGC ei chadw yn ein swyddfeydd ym Mangor a Wreccsam. Cedwir gwybodaeth sydd ddim ei hangen i ddibenion CICGC oddi ar y safle mewn eiddo diogel.

Yn y Cynllun Cyhoeddi hwn byddwch yn gweld disgrifiadau o'r math o wybodaeth yr ydym yn bwriadu ei chyhoeddi – mae'r pennawd i'r disgrifiadau yn cael eu galw yn 'Ddosbarthiadau o Wybodaeth'. Weithiau ni fyddwn yn gallu cyhoedd'r holl wybodaeth sydd gan CICGC. Yn yr amgylchiadau hyn byddwn yn rhoi gwybod pam i chi.

Ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth bersonol na sensitif a byddwn bob amser yn ystyried Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi, ymhob Dosbarth, beth yw'r cyfyngiad amser ar y wybodaeth a gyhoeddwn – os ydych eisiau gweld gwybodaeth yn y Dosbarth hwnnw sy'n hŷn, dylech gysylltu â'r person a nodir yn y cynllun.

Yn ychwanegol at y wybodaeth a gyhoeddwn, mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am gyrff eraill ee Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, sydd hefyd efallai yn dal gwybodaeth sy'n berthnasol i waith y CICau.

## Sut gellir gweld y wybodaeth yma?

- Gallwch ei darllen neu ei lawrlwytho drwy ein gwefan yn y cyfeiriad yma [www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr](http://www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr)
- Gallwch ofyn am gopi caled gan:

**Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog**

**Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, Uned 11  
Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor,  
LL57 4FH  
E-bost: Geoff.RyallHarvey@wales.nhs.uk  
Rhif ffôn: 01248 679284  
(gwasanaeth ateb yn ei le)**

- Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb i chi gael gweld y wybodaeth yr ydych ei heisiau, oherwydd cyfyngiadau presennol pandemig Covid-19.

## Adborth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, sylwadau neu gwynion am weithrediad y Cynllun Cyhoeddi, neu sut yr ydym wedi delio gyda'ch cais am wybodaeth, cysylltwch gyda:

**Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog  
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, Uned 11  
Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor,  
LL57 4FH  
E-bost: Geoff.RyallHarvey@wales.nhs.uk  
Ffôn: 01248 679284 (gwasanaeth ateb yn ei le)**

## Eich hawl i gael mynediad i wybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'n gweithgareddau busnes arferol. Rydym wedi ymroi i:

- Gyhoeddi yn rhyngweithiol neu fel arall sicrhau bod gwybodaeth gaiff ei dal gan y Bwrdd ar gael, fel mater o drefn, ac sy'n syrthio o fewn y dosbarthiadau isod.
- Pennu'r wybodaeth yr ydym yn ei dal sy'n syrthio o fewn y dosbarthiadau isod.
- Cyhoeddi yn rhyngweithiol neu fel arall sicrhau bod gwybodaeth sy'n unol â'r datganiadau sydd yn y cynllun

hwn ar gael fel mater o drefn.

- Cynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau y gwneir y wybodaeth benodol ar gael yn arferol, fel y gellir eu hadnabod a chael mynediad atynt gan aelodau o'r cyhoedd.
- Adolygu a diweddarau yn rheolaidd y wybodaeth a ddarparwn o dan y cynllun hwn.
- Llunio atodlen o unrhyw ffioedd a godir i gael mynediad i wybodaeth sydd ar gael yn rhyngweithiol.
- Sicrhau bod y cynllun cyhoeddi yma ar gael i'r cyhoedd.
- Cyhoeddi unrhyw set data sydd gennym y gofynnwyd amdano, ac unrhyw fersiynau wedi eu diweddarau sydd gennym, oni bai ein bod yn fodlon nad yw'n briodol i wneud hynny.
- Cyhoeddi'r set data, ble fo hynny yn rhesymol ymarferol, ar ffurf electronig y gellid ei ail-ddefnyddio; ac os yw unrhyw wybodaeth yn y set data yn waith hawlfraint perthnasol ac mai ni yw'r unig berchennog, i wneud y wybodaeth ar gael i'w hail-ddefnyddio o dan delerau Rheoliadau Ail-ddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015, os ydynt yn gymwys, ac fel arall dan delerau adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

Caiff y term 'set data' ei ddiffinio yn adran 11(5) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r term 'gwaith hawlfraint perthnasol' yn cael ei ddiffinio yn adran 19(8) o'r Ddeddf.

## **Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn cydnabod fod gan bawb yr hawl i wybod sut mae gwasanaethau cyhoeddus (fel y Bwrdd) yn cael eu trefnu a'u rhedeg, beth yw'r gost a sut y gallwch wneud cwynion os oes angen i chi wneud hynny.

Mae gennych hawl i wybod pa dargedau sydd wedi eu gosod, safonau'r gwasanaethau a ddisgwylir a beth yr ydym wedi eu cyflawni.

## **Cod ymarfer a didwylledd**

Yn ychwanegol i gael mynediad at y wybodaeth a nodwyd yn y Cynllun Cyhoeddi yma, mae gennych hawl i ofyn am wybodaeth am y Bwrdd dan y cod ymarfer a bod yn ddidwyll yn y GIG.

Gallwch weld y ddogfen yma -

<http://www.wales.nhs.uk/document/19279/info/>

## **Ceisiadau mynediad pynciau (SAR)**

Mae gan unigolion (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel pynciau data) yr hawl i gael mynediad i ddata personol neu data categori arbennig y gallem fod yn ei dal amdanynt. Gellir gwneud hyn yn llafar neu'n ysgrifenedig.

## **Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018**

O'r 31 Mai 2019, mae CICGC wedi gorfod cydymffurfio gyda'r 'Safonau' a nodwyd mewn Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Gellir gweld copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio i CICGC ar wefan CICGC

[www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr](http://www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr).

Mae modd gweld Safonau y Gymraeg i'r CICau ar wefan Comisiynydd y Gymraeg yn

[www.comisiynyddygybraeg.cymru/English/ReportsGuides](http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/English/ReportsGuides).

Mae'r Cynllun Cyhoeddi ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn nodi pa wybodaeth yn y Cynllun Cyhoeddi sydd ar gael yn y ddwy iaith. Nodir hyn gyda'r symbol "Φ". Fel arfer bydd gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi yn y ffurf sydd gennym.

## **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol**

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, yn gosod y safon i ryddhau gwybodaeth am yr amgylchedd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddi.

Gellir gofyn am wybodaeth am yr amgylchedd gan ddefnyddio'r rheoliadau hyn a'r cod ymarfer uchod ar fod yn ddidwyll yn y GIG. Gellir gweld y rheoliadau yma -  
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2004/3391/contents/made>

## **DOSBARTHIAU GWYBODAETH**

Mae'r Cynllun Cyhoeddi yma'n ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'n gweithgareddau busnes arferol. Caiff y wybodaeth sydd gennym ei grwpio i gategoriâu bras fel a ganlyn:

- Pwy ydym ni a beth yr ydym yn ei wneud;
- Beth yr ydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario;
- Beth yw ein blaenoriaethau a sut yr ydym yn ei wneud;
- Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau;
- Ein polisiau a'n gweithdrefnau;
- Rhestrau a chofrestrau; a'r
- Gwasanaethau a gynigiwn.

Ni fydd y dosbarthiadau gwybodaeth fel arfer yn cynnwys:

- Gwybodaeth, y bydd ei datgelu yn cael ei hatal gan y gyfraith, neu'n eithredig dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu sydd fel arall yn cael ei hystyried wedi'i gwarchod rhag cael ei dadlennu;
- Gwybodaeth ar ffurf drafft; a
- Gwybodaeth sydd ddim bellach ar gael yn hawdd gan ei bod mewn ffeiliau sydd wedi eu harchifo a'u cadw, neu sy'n anodd i gael mynediad ati am resymau tebyg.

Weithiau, ni fyddwn yn gallu cyhoeddi'r holl wybodaeth gaiff ei dal gan CICGC. Yn yr enghreifftiau hyn fe fyddwn yn rhoi gwybod pam i chi.

Mae gan CIGGC bolisi rheoli cofnodion sy'n nodi yn glir am faint y byddwn yn cadw gwybodaeth, yn unol â'n polisi preifatrwydd a gellir ei weld yma:

[www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr](http://www.communityhealthcouncils.org.uk/betsicadwaladr).

Mae copi o'r polisi rheoli cofnodion ar gael drwy gysylltu â'r swyddfa.

**Diweddarwyd y wybodaeth yn y Cynllun Cyhoeddi yma ddiwethaf ym MAI 2020.**



## **PWY YDYM NI A BETH A WNAWN**

### **Sut yr ydym yn cysylltu gyda Phatrwm GIG**

Mae 7 Bwrdd Iechyd Lleol (BILL) yng Nghymru gyda chyfrifoldeb daearyddol penodol. Ceir hefyd Ymddiriedolaethau Iechyd gyda roliau arbenigol penodol; y rhain yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae'r BILLau hyn yn gyfrifol am gynllunio gwasanaethau iechyd mae pobl leol eu hangen ac eisiau. Y BILLau sydd hefyd yn gyfrifol am gynllunio, cyflawni a thalu am wasanaethau ysbyty, meddygon teulu, deintyddion ac eraill i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae gan bob BILL Fwrdd sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae gan y CICau yr hawl i siarad ond ddim i bleidleisio yng nghyfarfodydd Bwrdd BILL. Mae gan bob BILL ddyletswydd i ymgynghori gyda'r CICau perthnasol ar gynigion i unrhyw ddatblygiadau sylweddol a/neu newidiadau i'r gwasanaeth iechyd yn ei ardal, ac i ddarparu'r wybodaeth i'r CICau am gynllunio a gweithredu gwasanaethau iechyd yn lleol.

### ***Gweithio gyda'n gilydd i wella iechyd yng Nghymru***

Mae gan y BILL a'r Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i weithio gyda'i gilydd – mewn partneriaeth gyda mudiadau lleol eraill – i lunio strategaethau i wella iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant i'r bobl sy'n byw yn eu hardal. Disgwylir hefyd i'r BILLau weithio'n agos gyda'u poblogaeth leol, ymgynghori yn gyhoeddus ar newidiadau sylweddol gan wrando ar ac ystyried barn leol.

### ***Gwasanaethau Arbenigol***

Mae tua tri chwarter o'r gyllideb i'r GIG yng Nghymru yn mynd i'r BILLau, ond mae ychydig o wasanaethau arbenigol sydd wedi eu lleoli ar draws Cymru gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys

gwasanaethau ambiwlans brys, llawfeddygaeth cardiaidd a rhai gwasanaethau plant.

Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) sydd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau trydyddol ('trydydd lefel') a gwasanaethau arbenigol eraill sydd angen sail poblogaeth sy'n fwy na unrhyw Ymddiriedolaeth GIG/BILL unigol. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyflawni ymhob ysbyty ond mewn canolfannau rhanbarthol neu genedlaethol, gyda'r rhai mwyaf arbenigol yn cael eu darparu mewn un neu ddwy ganolfan yn y cyfan o'r DU.

Mae WHSSC hefyd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau penodol ar raddfa genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau gwaed a sgrinio a Galw Iechyd Cymru.

### ***Iechyd Cyhoeddus***

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i'r BILLau ar amrediad o faterion fel rheoli afiechyd ac amddiffyn plant.

### ***Gwasanaethau Ambiwllans***

Darperir y gwasanaethau Ambiwllans ar draws Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST). Mae cyd-gysylltu gyda WAST ar lefel genedlaethol drwy drefniadau cyswllt lleol. Yn CICGC mae hyn yn digwydd yn y Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau.

### ***Cysylltiadau rhwng y CICau a'r BILLau***

Mae'r tabl isod yn dangos y cysylltiadau rhwng y CICau a'r BILLau

| <b>CYNGOR IECHYD CYMUNED (CIC)</b> | <b>BWRDD IECHYD LLEOL (BILI)</b>        |
|------------------------------------|---|
| CIC Bae Abertawe                   | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe     |
| CIC Aneurin Bevan                  | BILI Aneurin Bevan                      |
| CIC Gogledd Cymru                  | BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr          |
| CIC De Morgannwg                   | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

|                       |  |
|-----------------------|--|
| CIC Cwm Taf Morgannwg | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| CIC Hywel Dda         | BILI Hywel Dda                           |
| CIC Powys             | BILI Powys (Addysgu)                     |

*Gellir cael rhagor o wybodaeth ar y GIG yng Nghymru ar [www.wales.nhs.uk](http://www.wales.nhs.uk).*

## **Gwybodaeth yn ymwneud â sefydliad y CICau yng Nghymru a sut mae CICGC yn rhan o'r patrwm yma**

Mae 7 CIC yng Nghymru yn gweithio yn unol â'r ffiniau gyda eu BILlau cyfatebol. Mae maint a phatrwm CIC yn amrywio yn ôl yr ardal ddaearyddol, maint y boblogaeth a llif y cleifion.

Gwirfoddolwyr lleyg di-dâl yw holl aelodau CIC sy'n derbyn treuliau teithio a chynhaliaeth. O bryd i'w gilydd, gall y CICau hefyd gyfethol aelodau ychwanegol fel yr ystyriwyd yn angenrheidiol i ymgymryd â gwaith Cyngor Llawn y CICau (y Cyngor). Ni all aelodau cyfetholedig bleidleisio mewn unrhyw gyfarfodydd neu weithdrefnau. Cefnogir CIC gan nifer fach o staff cyflogedig. Mae gwaith bob CIC yn cael ei gefnogi gan Brif Swyddog.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r saith CIC ac yn dangos sut maent yn cysylltu gyda'r awdurdodau lleol yn eu hardal.

| <b>PATRWM CICau CYMRU</b> | <b>ARDALOEDD AWDURDOD LLEOL WEDI EU CYNNWYS</b>                                    |
|---------------------------|--|
| CIC Aneurin Bevan         | i. Blaenau Gwent<br>ii. Caerffili<br>iii. Casnewydd<br>iv. Sir Fynwy<br>v. Torfaen |
| CIC Cwm Taf Morgannwg     | i. Penybont ar Ogwr<br>ii. Merthyr<br>iii. Rhondda Cynon Taf                       |
| CIC Hywel Dda             | i. Sir Gaerfyrddin<br>ii. Ceredigion<br>iii. Sir Benfro                            |

|                   |   |
|-------------------|---|
| CIC Gogledd Cymru | i.Ynys Môn<br>ii.Sir Ddinbych<br>iii.Conwy<br>iv.Sir y Fflint<br>v.Gwynedd<br>vi.Wreccsam                           |
| CIC Powys         | i.Brycheiniog a Maesyfed.<br>ii.Sir Drefaldwyn yn cynnwys cymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn |
| CIC Bae Abertawe  | i.Castell-nedd Port Talbot<br>ii.Abertawe   |
| CIC De Morgannwg  | i.Caerdydd<br>ii.Bro Morgannwg  |

## PWERAU STATUDOL A SWYDDOGAETHAU Y CYNGHORAU IECHYD CYMUNED

### Aelodaeth y CICau

Penodir aelodau CIC gan yr awdurdodau lleol perthnasol, sefydliadau gwirfoddol a gan Lywodraeth Cymru o'r ymgeiswyr sy'n ymateb i hysbysebion cyhoeddus. Mae cyfanswm yr aelodau a benodwyd i bob CIC gan y cyrff penodi wedi ei nodi isod yn Atodlen 1 Offeryn Statudol Cymru 2010 Rhif 288 (W.37).

Mae'r Aelodau a benodwyd neu a ail-benodwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2010, yn benodol i gyfnod gwasanaeth o rhwng un a phedair blynedd fel y pennwyd gan y corff penodi.

Gall aelod, pan ddaw y cyfnod gwasanaeth gwreiddiol i ben fod yn gymwys i gael ei ail-benodi yn amodol i uchafswm cyfnod gwasanaeth o wyth mlynedd.

## **Gweithrediadau y CICau**

Mae aelodau CIC yn ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd (neu dau Is-gadeirydd) a gallant benodi un neu fwy o Bwyllgorau i ymarfer rai o'u swyddogaethau.

Rhaid i'r pwyllgorau lleol hefyd benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith eu haelodau. Bydd y swyddogion a benodwyd, ynghyd â'r Prif Swyddog yn ffurfio Pwyllgor Gwaith CIC.

Er hynny, dylid nodi:-

- Na all aelodau a benodir yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd i CIC gael eu penodi yn Gadeirydd neu'n Is-gadeirydd pwyllgor lleol.
- Bydd Cadeirydd y CIC hefyd yn aelod o Fwrdd CICau Cymru.

## **Perfformiad a Swyddogaethau**

- Rhaid i bob CIC benodi pwyllgorau (a adwaenir fel pwyllgorau lleol) i bob ardal(oedd) berthnasol o'r awdurdod lleol yn eu hardal.
- Mae gan bob CIC ddyletswydd i gadw gweithrediad y gwasanaeth iechyd yn ei ardal o dan adolygiad.
- Mae gan y BILI perthnasol ddyletswydd i ymgynghori gyda'r CIC(au) ar gynigion i unrhyw ddatblygiadau sylweddol o'r gwasanaeth iechyd yn ei ardal.
- Mae gan y BILI perthnasol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth i CIC am gynllunio a gweithrediad y gwasanaethau iechyd yn ei ardal.
- Gall CIC fynd i mewn ac archwilio unrhyw eiddo a reolir gan y BILI perthnasol neu Ymddiriedolaeth GIG.
- Mae gan bob BILI ddyletswydd i drefnu cyfarfod rhwng aelodau ei fwrdd ac aelodau CIC, ddim llai nag unwaith bob 6 mis.
- Rhaid i bob CIC erbyn 1 Medi bob blwyddyn, lunio Adroddiad Blynyddol ysgrifenedig i Weinidogion Cymru am berfformiad ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis ddaw i ben ar 31 Mawrth o'r flwyddyn honno.

## **Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru (y Bwrdd)**

Prif waith y Bwrdd yw dod ag unigolion CICau at ei gilydd mewn rhwydwaith a gyflawnir gan wasanaethau corff cynrychioliadol (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel 'y Bwrdd') ble fo pob CIC yn cael ei gynrychioli gan aelod wedi ei ethol yn ddemocrataidd. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithredu fel y llais cenedlaethol i gleifion.

Mae gan y Bwrdd Gadeirydd Annibynnol a dau Aelod Annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae tîm bach o staff yn eu cefnogi.

Cafodd gwaith y Bwrdd fel y CICau unigol, ei ehangu yn sylweddol gyda'r nod cenedlaethol a lleol i wella ymgysylltu gyda chleifion a'r cyhoedd a'u rhan yn y GIG gan alluogi ac annog y CICau i chwarae rhan bwysig.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn [\*\*www.communityhealthcouncils.org.uk\*\*](http://www.communityhealthcouncils.org.uk)

## **Gwybodaeth am y berthynas rhwng CICGC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac unrhyw gyrff DG, Cenedlaethol, Rhanbarthol y mae CICGC yn gysylltiedig â hwy**

- Mae CICGC yn cynrychioli poblogaeth o tua 680,000 o drigolion
- Rydym yn mynychu cyfarfodydd BILI Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda hawl i siarad ond ddim i bleidleisio.
- Byddwn yn monitro cyflawniad gwasanaethau iechyd lleol gan BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr o ran gwasanaethau sylfaenol, eilaidd, aciwt a chymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl.

- Siaradwn gyda BILLau eraill ac Ymddiriedolaethau GIG sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i drigolion gogledd Cymru.
- Cawn ein cynrychioli ar ystod o grwpiau aml-asantaethol sy'n hybu gwaith partneriaeth gan weithio ar draws terfynau cyfundrefnol
- Rydym yn cymryd rhan yng ngweithgareddau Bwrdd y CICau yng Nghymru.

Rhoddir cyfrif o'n cysylltiadau a'n gweithgareddau bob blwyddyn yn ein Adroddiad Blynyddol, y gellir cael mynediad iddo dan y Cynllun Cyhoeddi hwn.

## **PATRWM CICGC A SUT YN YDYM YN YMGYMRYD Â'N DYLETSWYDDAU STATUDOL**

### **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru**

- Mae gan CICGC 72 o Aelodau, 12 aelod i bob un o'r chwe Pwyllgor Lleol yn ardal gogledd Cymru
- Mae gan bob un o'r chwe Pwyllgor Lleol dri aelod wedi eu penodi gan eu hawdurdodau lleol perthnasol, tri gan y sector gwirfoddol a chwech gan Lywodraeth Cymru (ar ôl cyfweld ymgeiswyr sy'n ymateb i hysbysebion)
- Gellir hefyd cyfethol aelodau i CICGC
- Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Llawn CIC bob tri mis, un o'r rhain yw y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Ebrill. Mae'r cyfarfodydd hyn yn agored i'r cyhoedd.
- Gellir cael manylion am gyfarfodydd Cyngor Llawn CICGC ar wefan CICGC – [www.communityhealthcouncils.org.uk](http://www.communityhealthcouncils.org.uk)

### **Patrwm Pwyllgorau**

Mae CICGC yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i bwyllgorau. Rhestrir y pwyllgorau isod.

|                                 |                     |
|---------------------------------|---------------------|
| Pwyllgor Gwaith                 | 6 gwaith y flwyddyn |
| Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau | bob 6 wythnos       |
| Grŵp Ymgysylltu ac Ymgynghori   | bob deufis          |

|                                 |                      |
|---------------------------------|----------------------|
| Pwyllgor Safonau a Llywodraethu | ddwywaith y flwyddyn |
| Grŵp Ymweld a Monitro           | bob deufis           |
| Pwyllgor Lleol Conwy            | chwarterol           |
| Pwyllgor Lleol Sir Ddinbych     | chwarterol           |
| Pwyllgor Lleol Sir y Fflint     | chwarterol           |
| Pwyllgor Lleol Gwynedd          | chwarterol           |
| Pwyllgor Lleol Wrecsam          | chwarterol           |
| Pwyllgor Lleol Ynys Môn         | chwarterol           |

### Sut mae CIGC yn gweithio

- Mae CIGC yn ymarfer ei bwerau statudol a'i ddyletswyddau gan gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y GIG ac yn dal cyrff GIG i gyfrif

Mae gwaith CIGC wrth fonitro gwasanaethau iechyd lleol yn cynnwys

- I. Cynnal rhaglen o ymweliadau monitro gyda ysbytai a lleoliadau eraill ble darperir gwasanaethau GIG i'r cleifion;
  - II. Mynychu cyfarfodydd Bwrdd BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr;
  - III. Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyswllt anffurfiol gyda uwch reolwyr GIG;
  - IV. Cynrychiolaeth ar ystod o bwyllgorau allweddol yn ymwneud ag agweddau fel Llywodraethu Clinigol, Cwynion, Ymgysylltu gyda Chlefion a'r Cyhoedd, Newidiadau Gwasanaeth;
  - V. Cynrychiolwyr o gyrff GIG lleol yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus CIC;
  - VI. Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus neu ffurfiau eraill o ymgynghori i gael gwybod beth yw barn y cleifion a'r cyhoedd.
- Daw CIGC ag anghenion arbennig a phryderon trigolion gogledd Cymru i sylw Llywodraeth Cymru a chyrff eraill
  - Mae CIGC yn ceisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am faterion GIG



- Mae CIGC yn darparu gwybodaeth a chynghor anfeddygol i'r cyhoedd
- Mae CIGC yn cynnig cynghor rhad ac am ddim, a chymorth annibynnol a chyfrinachol i gleifion sy'n dilyn cwynion am y gwasanaeth iechyd
- Ar lefel genedlaethol a rhanbarthol rydym yn cyfrannu at nifer o Bwyllgorau GIG a Rhwydweithiau Clinigol

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn a wnawn yn ein Adroddiad Blynnyddol, a gallwch gael mynediad iddo dan y Cynllun Cyhoeddi hwn.

## Cynghor ac Eiriolaeth

Darparwn gynghor, cymorth a chefnogaeth ar wahanol agweddau o ofal iechyd gan weithredu fel ffrind i'r claf neu eiriolydd o safbwynt cwynion neu bryderon am wasanaethau GIG. Mae gan CIGC ddau eiriolydd cwynion rhan amser a thri eiriolydd cwynion llawn amser. Gwelir isod wybodaeth am sut i gael mynediad i'r gwasanaeth rhad ac am ddim yma:

### **Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion i CIC Gogledd Cymru**

#### **Swyddfa Bangor**

Cyfeiriad: 11 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd

LL57 4FH

Rhif ffôn: 01248 679284 Gwasanaeth peiriant ateb yn ei le

E-bost: [complaints@waleschc.org.uk](mailto:complaints@waleschc.org.uk)

#### **Swyddfa Wrecsam**

Cyfeiriad: Uned1B a 1D Parc Busnes Wilkinson, Ffordd De Clywedog, Wrecsam, LL13 9AE

Rhif ffôn: 01978 346878 Gwasanaeth peiriant ateb yn ei le

E-bost: [complaints@waleschc.org.uk](mailto:complaints@waleschc.org.uk)

## Gwybodaeth dan y Cynllun Cyhoeddi

Dan y Cynllun Cyhoeddi hwn rydym yn gallu darparu'r wybodaeth isod am ein patrwm a sut yr ydym yn ymgymryd â'n dyletswyddau statudol:

| <b>Dogfen</b>   | <b>Argaeledd</b>    | <b>Ffynhonnell</b>                           | <b>Cymraeg<br/>a<br/>Saesneg</b> |
|---|---------------------|--|----------------------------------|
| Safonau Cenedlaethol<br>CICau Cymru                           | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled<br>Gwefan<br>Bwrdd CICau<br>Cymru |                                  |
| Canllaw Safonau<br>Cyhoeddi                                   | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled<br>Gwefan<br>Bwrdd CICau<br>Cymru |                                  |
| Egwyddorion Ymweld<br>CIC                                     | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled<br>Gwefan<br>Bwrdd CICau<br>Cymru |                                  |
| Cynllun Gweithredol<br>Blynyddol                              | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled<br>Gwefan                         | Φ                                |
| Rhaglen Ymweliadau<br>Monitro ac Ymgysylltu<br>gyda Chleifion | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled                                   |                                  |
| Adolygiad gan<br>Gymheiriaid                                  | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled                                   |                                  |
| Hunan-asesiad CICGC   | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled                                   |                                  |
| Aelodaeth a thelerau<br>penodi                                | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled                                   | Φ                                |
| Cod Ymddygiad yr<br>Aelodau                                   | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled<br>Gwefan                         | Φ                                |
| Rheolau Sefydlog  | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled                                   | Φ                                |
| Taflen<br>Gyhoeddusrwydd                                      | Fersiwn<br>gyfredol | Copi caled<br>Gwefan                         | Φ                                |

CYNGOR IECHYD CYMUNED GOGLEDD CYMRU  
MAI 2020

|  |                   |                   |   |
|--|-------------------|-------------------|---|
| Rhestr cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau             | Blwyddyn gyfredol | Copi caled Gwefan |   |
| Rhaglenni a Chofnodion Cyfarfodydd y Cyngor            | Blwyddyn gyfredol | Copi caled Gwefan | Φ |
| Rhaglen a Chofnodion y Pwyllgor Gwaith                 | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        |   |
| Rhaglen a Chofnodion y Pwyllgor Cynllunio Gwasanaethau | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        |   |
| Rhaglen a Chofnodion y Grŵp Ymgysylltu ac Ymgynghori   | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        |   |
| Rhaglen a Chofnodion Pwyllgor Safonau a Llywodraethu   | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        |   |
| Rhaglen a Chofnodion Grŵp Ymweld a Monitro             | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        |   |
| Rhaglen a Chofnodion Pwyllgor Lleol Conwy              | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        | Φ |
| Rhaglen a Chofnodion Pwyllgor Lleol Sir Ddinbych       | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        | Φ |
| Rhaglen a Chofnodion Pwyllgor Lleol Sir y Fflint       | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        |   |
| Rhaglen a Chofnodion Pwyllgor Lleol Gwynedd            | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        | Φ |
| Rhaglen a Chofnodion Pwyllgor Lleol Wrecsam            | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        | Φ |
| Rhaglen a Chofnodion Pwyllgor Lleol Ynys Môn           | Blwyddyn gyfredol | Copi caled        | Φ |
| Adroddiad Blynyddol                                    | Mwyaf diweddar    | Copi caled Gwefan | Φ |
| Cofnodion y  | Mwyaf             | Copi caled        | Φ |

|  |                   |                   |   |
|--|-------------------|-------------------|---|
| Cyfarfodydd Statudol gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol | diweddar          | Gwefan BILIPBC    |   |
| Adroddiadau Ymweliadau Monitro                 | Mwyaf diweddar    | Copi caled        |   |
| Datganiadau i'r Wasg                           | Blwyddyn gyfredol | Copi caled Gwefan | Φ |
| Pecyn Gwybodaeth Eiriolaeth Cwynion            | Fersiwn gyfredol  | Copi caled Gwefan | Φ |

Mae cofnodion cyfarfodydd CICGC ar gael fel copi caled gan CICGC, 11 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4FH. Gellir darparu cyfieithiadau yn y Gymraeg o'r dogfennau eraill ar gais.

## ADNODDAU DYNOL

Cefnogir gwaith bob CIC gan dîm bach o staff cyflogedig. Patrwm staffio CICGC yw:

- Un Prif Swyddog
- Un Dirprwy Brif Swyddog
- Un Rheolwr Busnes
- Pump Eiriolydd Cwynion (4 ar oriau rhan amser)
- Dau Reolwr Swyddfa Eiriolaeth (1 ar oriau rhan amser)
- Dau Swyddog Rheoli
- Dau Gynorthwy-ydd Cwynion
- Dau Swyddog Gweinyddol (1 ar oriau rhan amser)

## Gwasanaethau Craidd

Mae bob CIC yn derbyn cyngor a chymorth ar faterion personél a chyllid gan Bartneriaeth Rhannu Gwasanaethau GIG Cymru, rhan o Fwrdd Dysgu Iechyd Lleol Powys (BILId Powys), dan gytundeb rhwng BILl Powys a Llywodraeth Cymru.

Fel cyflogwr cyfreithiol staff CIC, mae BILl Powys yn darparu swyddogaethau'r cyflogwr o ran contractau, cyflogres, polisïau iechyd a diogelwch ac ati. Yn y ffordd yma, mae'r CICau yn

cael eu darparu gyda'r gwasanaethau cefnogol maent eu hangen.

Gellir ond gwneud penderfyniadau am recriwtio a phenodi staff CIC gyda chytundeb ymlaenllaw gan y Swyddog Prif Weithredol, fel a bennwyd gan Fwrdd CICau Cymru.

Mae cyfeiriad strategol a gweithgareddau bob CIC yn cael eu penderfynu gan y CIC unigol yn ôl swyddogaethau craidd cydnabyddedig y CICau.

### **Gwybodaeth dan Gynllun Cyhoeddi CICGC**

Dan y Cynllun Cyhoeddi hwn rydym yn gallu darparu'r cyhoedd gyda'r wybodaeth isod am adnoddau dynol:

| <b>Dogfen</b>                 | <b>Argaeledd</b>        | <b>Ffynhonnell</b> | <b>Cymraeg a Saesneg</b> |
|-------------------------------|-------------------------|--------------------|--------------------------|
| Patrwm Staff                  | Defnyddir ar hyn o bryd | Copi caled Gwefan  | Φ                        |
| Swydd ddisgrifiadau staff CIC | Fersiwn bresennol       | Copi caled         |                          |

### **YMRFERION YMGYNGHORI**

Mae Bwrdd CICau Cymru yn gyfrifol am gydlynu ymateb torfol i ymarferion ymgynghori cenedlaethol. Gall CICau unigol benderfynu cynnig sylwadau o'u safbwynt penodol hwy.

Bydd trefniadau i ymateb i ddogfennau ymgynghorol cenedlaethol a lleol yn amrywio, yn dibynnu ar y pwnc, amser, graddfa pryder lleol ac ati. Gall y broses ymgynghori gynnwys cynnal cyfarfodydd cyhoeddus neu grwpiau trafod, neu ofyn i aelodau unigol CIC gyda phrofiad perthnasol i wneud sylwadau.

## Gwybodaeth dan Gynllun Cyhoeddi CICGC

Dan y Cynllun Cyhoeddi yma rydym yn gallu darparu'r cyhoedd gyda'r wybodaeth isod am unrhyw ymgynghoriadau mae CICGC wedi cymryd rhan ynddynt:

| <b>Dogfen</b>   | <b>Argaeledd</b>  | <b>Ffynhonnell</b> | <b>Cymraeg<br/>a<br/>Saesneg</b> |
|---|-------------------|--------------------|----------------------------------|
| Copi o unrhyw ymateb CICGC i ymarfer(ion) Ymgynghori Lleol a/neu Genedlaethol | Blwyddyn gyfredol | Copi caled Gwefan  | <b>Φ<br/>(rhannol)</b>           |

## GWYBODAETH ARIANNOL AC ARIANNU

Mae pob CIC yn derbyn dyraniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru. Y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am reoli'r gyllideb yn unol â'r gweithdrefnau ariannol a chyfrifeg a sefydlwyd gan BILld Powys. Nid yw CICGC yn derbyn arian oddi wrth unrhyw ffynhonnell arall.

## Gwybodaeth dan Gynllun Cyhoeddi CICGC

Dan y Cynllun Cyhoeddi hwn rydym yn gallu darparu'r cyhoedd gyda'r wybodaeth ariannol a ganlyn:

| <b>Dogfen</b>               | <b>Argaeledd</b> | <b>Ffynhonnell</b>                            | <b>Cymraeg<br/>a<br/>Saesneg</b> |
|-----------------------------|------------------|---|----------------------------------|
| Cyfrifon Ariannol Blynyddol | Mwyaf diweddar   | Copi caled Gwefan (yn yr Adroddiad Blynyddol) | <b>Φ</b>                         |

## CYFATHREBU GYDA'R WASG A DATGANIADAU I'R CYFRYNGAU

Mae CICGC yn darparu gwybodaeth fel mater o drefn am gyfarfodydd CIC sydd i ddod ar y cyfryngau lleol. O bryd i'w gilydd byddwn yn cyflwyno datganiad i'r wasg/i'r cyfryngau. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan y Prif Swyddog.

### Gwybodaeth dan Gynllun Cyhoeddi CICGC

Dan y Cynllun Cyhoeddi hwn byddwn yn gallu darparu'r cyhoedd gyda'r wybodaeth isod am ddatganiadau i'r wasg/cyfryngau:

| Dogfen                               | Argaeledd         | Ffynhonnell                              | Cymraeg Saesneg |
|--------------------------------------|-------------------|--|-----------------|
| Unrhyw ddatganiad i'r Wasg/Cyfryngau | Blwyddyn gyfredol | Copi caled Gwefan Cyfryngau Cymdeithasol | Φ               |

## CWYNION

### Cwynion am CIC

Mae Bwrdd CICau Cymru wedi datblygu polisi sy'n ymwneud â chwynion am berfformiad CIC unigol. Gellir gweld hwn yma: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/900/FINAL%20-%20MAKING%20A%20COMPLAINT%20ABOUT%20US%20-%20CHC%20COMPLAINTS%20PROCEDURE%20-%20ENGLISH%20v5%20%28from%2030%20May%202019%29.pdf>

### Cwynion am GIG

Cewch ofyn am gyngor a chymorth wrth wneud cwyn. Dangosir gwybodaeth isod ar sut i gael mynediad at Wasanaeth Eiriolaeth Cwynion CICGC. Yn ychwanegol, bydd bob

BILI/Ymddiriedolaeth GIG fel arfer yn darparu gwybodaeth am drin cwynion ar ffurf taflen wybodaeth i gleifion.

### **Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion CIC Gogledd Cymru**

#### **Swyddfa Bangor:**

Cyfeiriad: 11 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd

LL57 4FH

Rhif ffôn: 01248 679284 Gwasanaeth ateb ar gael

E-bost: [complaints@waleschc.org.uk](mailto:complaints@waleschc.org.uk)

#### Swyddfa Wrecsam:

Cyfeiriad: Uned 1B a 1D Parc Busnes Wilkinson, Ffordd De Clywedog, Wrecsam, LL13 9AE

Rhif ffôn: 01978 346878 Gwasanaeth ateb yn ei le

E-bost: [complaints@waleschc.org.uk](mailto:complaints@waleschc.org.uk)

### **Gwybodaeth dan Gynllun Cyhoeddi CICGC**

Dan y Cynllun Cyhoeddi hwn rydym yn gallu darparu'r cyhoedd gyda'r wybodaeth isod am y Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion.

| <b>Dogfen</b>                               | <b>Argaeledd</b> | <b>Ffynhonnell</b> | <b>Cymraeg a Saesneg</b> |
|---|------------------|--------------------|--------------------------|
| Canllaw Eiriolaeth CICau                    | Fersiwn gyfredol | Copi caled Gwefan  | Φ                        |
| Taflen – Anhapus gyda'r Gofal a Dderbyniwyd | Fersiwn gyfredol | Copi caled Gwefan  | Φ                        |
| Cysylltiadau lleol Eiriolaeth Cwynion       | Fersiwn gyfredol | Copi caled Gwefan  | Φ                        |

### **GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL**

Lleolir swyddfa CICGC ym Mangor mewn eiddo masnachol gaiff ei rentu yn 11 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor,



Gwynedd LL57 4FH. Mae mynediad anabl i'r llawr isaf; nid yw'r llawr cyntaf yn hygyrch gan nad oes yno lifft. Mae cyfleusterau toiled hygyrch i rai gyda chadair olwyn ar y llawr isaf. Gorwedd y cyfrifoldeb am gynnal iechyd a diogelwch gyda'r Prif Swyddog.

Mae swyddfa CICGC yn Wrecsam wedi ei lleoli mewn eiddo masnachol sydd wedi ei rentu yn Uned 1B a 1D o Barc Busnes Wilkinson, Ffordd De Clywedog, Wrecsam, LL13 9AE. Mae mynediad anabl i'r llawr isaf a mynediad anabl drwy lifft i'r llawr cyntaf. Mae hefyd cyfleusterau toiled hygyrch. Gorwedd cyfrifoldeb am gynnal a iechyd a diogelwch gyda'r Prif Swyddog.

## **Cost y Wybodaeth a Gyhoeddwyd dan y Cynllun hwn**

Fel arfer byddwn ond yn codi tâl am gopiâu papur neu am gopiö i gyfryngau (e.e. CD ROM, cof pin). Bydd y taliadau yn amrywio yn unol â sut mae'r wybodaeth ar gael. Mae'r taliadau fel a ganlyn:

- a) Drwy wefan CICGC – yn rhad ac am ddim, er fe fyddai unrhyw daliadau i'r darparwr gwasanaeth rhwydwaith a chostau argraffu personol yn gorfod cael eu cwrdd gan yr unigolyn.
- I rai heb fynediad i'r rhyngrwyd, bydd un argraffiad ar y wefan ar gael drwy'r post o CIC Gogledd Cymru, 11 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4FH.
- I gael copi caled ar CD ROM/cof pin ni fyddai unrhyw dâl yn cael ei godi os ydych chi'n darparu'r CD ROM/cof pin.
- Am gopi papur, codir tâl o 5 ceiniog y dudalen am hyd at 10 tudalen ac 1 geiniog y dudalen wedi hynny.
- Gall ceisiadau am sawl argraffiad, neu am gopiâu wedi eu harchifo o ddogfennau sydd bellach ddim ar gael ar y we, godi tâl am ddod o hyd i'r wybodaeth, llun-gopiö, postio ac ati. Byddwn yn rhoi gwybod ymlaenllaw i chi am y gost a'r taliadau y bydd yn rhaid eu talu. Ni fyddwn yn darparu argraffiad o wefannau sefydliadau eraill

- b) Taflenni a llyfrynnau – yn rhad ac am ddim pan fyddant er enghraifft am wasanaethau yr ydym yn eu cynnig i'r cyhoedd.
- c) Os oes copïau papur wedi eu rhwymo, neu mewn rhai achosion CD Rom/cof pin, fideo neu ffurfiau eraill, ar gael, bydd manylion y taliadau yn cael eu datgan yn ein rhestr cyhoeddiadau sydd ar gael o swyddfa CICGC yn y cyfeiriad a uchod.
- d) Bydd e-bost yn rhad ac am ddim oni ddywedir yn wahanol.

Bydd y taliadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau yn y Cynllun Cyhoeddi hwn.

### **Hawlfraint**

*Mae'r deunydd sydd ar gael drwy'r Cynllun Cyhoeddi hwn yn amodol i hawlfraint CICGC oni nodir yn wahanol. Oni nodir yn benodol yn wahanol ar y deunydd, gellir ei atgynhyrchu yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu yn gywir a ddim yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gamarweiniol. Ble fo unrhyw eitemau hawlfraint yn y Cynllun hwn yn cael eu hail-gyhoeddi neu eu copïo i eraill, rhaid i chi nodi ffynhonnell y deunydd a chydabod y statws hawlfraint. Nid yw caniatâd i atgynhyrchu deunydd yn ymestyn i unrhyw ddeunydd a gafwyd drwy'r Cynllun Cyhoeddi sydd yn hawlfraint trydydd parti. Rhaid i chi gael awdurdod i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint. Ar gyfer Nodiadau Canllaw HMSO ar ystod o faterion hawlfraint, ewch i wefan yr HMSO:*

*[www.hmso.gov.uk/guides.htm](http://www.hmso.gov.uk/guides.htm) or contact:*

*HMSO Licensing Division*

*St Clements House*

*2-16 Colegate*

*Norwich*

*NR31BQ*

*Rhif ffôn: 01603 621000*

*Ffacs: 01603 723000*

## ADNODDAU CYNGHORAU IECHYD CYMUNED

|   |  |
|---|--|
| Dolennau i wefannau<br>Cynghorau Iechyd<br>Cymuned unigol | <a href="http://www.communityhealthcouncils.org.uk">www.communityhealthcouncils.org.uk</a> |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd<br>Cymuned Cymru.                  | <a href="http://www.communityhealthcouncils.org.uk">www.communityhealthcouncils.org.uk</a> |

## DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000

|  |  |
|--|--|
| Gwefan y Comisiynydd<br>Gwybodaeth                   | <a href="http://www.ico.org.uk">www.ico.org.uk</a>   |
| Llywodraeth y DU                                     | <a href="http://www.gov.uk">www.gov.uk</a>   |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth<br>(FOI) 2000               | <a href="http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/36/contents">www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/36/contents</a>   |
| Nodiadau Esboniadol Deddf<br>Rhyddid Gwybodaeth      | <a href="http://www.lcd.gov.uk/foiact.htm">www.lcd.gov.uk/foiact.htm</a><br><a href="http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/en/2000en36.htm">www.legislation.hmso.gov.uk/acts/en/2000en36.htm</a> |
| Cod Ymarfer dan Adran 45<br>Deddf Rhyddid Gwybodaeth | <a href="http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/36/section/45">www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/36/section/45</a>   |
| Gwefan Deddf Rhyddid<br>Gwybodaeth GIG Cymru         | <a href="http://www.wales.nhs.uk/nhswalesaboutus/freedomofinformaion">www.wales.nhs.uk/nhswalesaboutus/freedomofinformaion</a>   |
| Cod Didwylledd GIG                                   | <a href="http://www.doh.gov.uk/nhsexec/codemain.htm">www.doh.gov.uk/nhsexec/codemain.htm</a>   |

## Llywodraeth Cymru

|                   |  |
|-------------------|--|
| Senedd Cymru      | <a href="http://www.senedd.wales">www.senedd.wales</a> |
| Llywodraeth Cymru | <a href="http://www.gov.wales">www.gov.wales</a>       |

## GIG YNG NGHYMRU (CENEDLAETHOL)

|  |  |
|--|--|
| Iechyd yng Nghymru                     | <a href="http://www.wales.nhs.uk">www.wales.nhs.uk</a>                                     |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru                 | <a href="http://www.publichealthwales.wales.nhs.uk">www.publichealthwales.wales.nhs.uk</a> |
| Gwasanaethau Iechyd<br>Arbenigol Cymru | <a href="http://www.whssc.wales.nhs.uk">www.whssc.wales.nhs.uk</a>                         |

|  |  |
|--|--|
| BILI Powys   | <a href="http://www.powyslhb.wales.nhs.uk">www.powyslhb.wales.nhs.uk</a>   |
| Galw Iechyd Cymru                                      | <a href="http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk">www.nhsdirect.wales.nhs.uk</a> |
| Ymddiriedolaeth GIG<br>Gwasanaethau Ambiwlans<br>Cymru | <a href="http://www.was-tr.wales.nhs.uk">www.was-tr.wales.nhs.uk</a>       |

## GIG YNG NGHYMRU (LLEOL)

|   |  |
|---|--|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol<br>Betsi Cadwaladr | Pencadlys<br>Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd<br>Bangor, Gwynedd, LL57 2PW<br>Rhif ffôn: +44 (01248) 384 384<br>Gwefan: <a href="http://www.bcu.wales.nhs.uk">www.bcu.wales.nhs.uk</a> |
|---|--|

## GWEFANNAU DEFNYDDIOL ERAILL

|  |  |
|--|--|
| Gweithredu yn erbyn<br>Damweiniau Meddygol         | <a href="http://www.avma.org.uk">www.avma.org.uk</a>                       |
| Y Comisiynydd Plant                                | <a href="http://www.childcom.org.uk">www.childcom.org.uk</a>               |
| Adran Iechyd                                       | <a href="http://www.doh.gov.uk">www.doh.gov.uk</a>                         |
| Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol                    | <a href="http://www.gdc-uk.org">www.gdc-uk.org</a>                         |
| Y Cyngor Meddygol Cyffredinol                      | <a href="http://www.gmc-uk.org">www.gmc-uk.org</a>                         |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol                       | <a href="http://www.optical.org">www.optical.org</a>                       |
| Gwasanaeth Asesu Clinigol<br>Cenedlaethol          | <a href="http://www.ncas.nhs.uk">www.ncas.nhs.uk</a>                       |
| Sefydliad Cenedlaethol dros<br>Ragoriaeth Glinigol | <a href="http://www.nice.org.uk">www.nice.org.uk</a>                       |
| Asiantaeth Genedlaethol<br>Diogelwch Cleifion      | <a href="http://www.npsa.org.uk">www.npsa.org.uk</a>                       |
| Galw Iechyd Cymru                                  | <a href="http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk">www.nhsdirect.wales.nhs.uk</a> |
| Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigaeth                     | <a href="http://www.nmc.org.uk">www.nmc.org.uk</a>                         |
| Ombwdsmon  | <a href="http://www.ombudsman.org.uk">www.ombudsman.org.uk</a>             |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru                         | <a href="http://www.olderpeoplewales.com">www.olderpeoplewales.com</a>     |
| Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr<br>Cyffredinol       | <a href="http://www.rcgp.org.uk">www.rcgp.org.uk</a>                       |
| Coleg Nyrsio Brenhinol                             | <a href="http://www.rcn.org.uk">www.rcn.org.uk</a>                         |
| Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol                   | <a href="http://www.rpharms.com">www.rpharms.com</a>                       |